



## Uned 6C: Modelu Graffeg

### Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i ddefnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i gynhyrchu delweddau a modelau gweledol. Maen nhw'n dysgu'r prif wahaniaethau rhwng rhaglen wrthrychau a phecyn paentio ac yn deall bod modd defnyddio modelau gweledol i nodi patrymau a chysylltiadau. Bydd modd i'r plant gymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth greu mapiau mewn daearyddiaeth ac wrth dynnu diagramau mewn gwyddoniaeth.

### Ble mae'r uned yn ffitio:

- Mae'r uned hon yn adeiladu ar unedau cynharach a ddefnyddiodd becynnau paentio ac mae'n cefnogi gweithgareddau modelu eraill.
- Mae'r uned yn cymryd yn ganiataol bod plant yn gallu defnyddio confensiynau graffeg fel y rhai a ddefnyddir wrth dynnu mapiau a diagramau cylchedau.

### Geirfa:

haen | gwrthrych

### Adnoddau:

pecyn darlunio gwrthrychau

### Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

*Bydd mwyafrif y plant yn gallu:* defnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i greu, cyfuno a thrafod gwrthrychau ac archwilio posibiladau

*Bydd rhai plant dim ond yn gallu:* defnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i greu a thrafod gwrthrychau sylfaenol

*Hefyd bydd rhai plant yn gallu:* defnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i greu ac archwilio model graffeg cywir gan wirio rhagfynegiadau a gwneud penderfyniadau



<b>Amcanion Dysgu</b> Dylai disgyblion ddysgu...	<b>Gweithgareddau Posib</b>	<b>Canlyniadau Dysgu</b> <i>Gall disgyblion...</i>	<b>Pwyntiau i'w Nodi</b>
<b>Gosod yr Olygfa</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd creu delweddau drwy gyfuno a thrafod gwrthrychau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>◆ Atgoffwch y dosbarth am y technegau maen nhw wedi'u dysgu drwy ddefnyddio pecynnau paentio. Trafodwch sut y defnyddir collage a'r ffordd mae'n caniatáu i elfennau gael eu symud. Dangoswch i'r dosbarth nad yw'n bosib trin elfennau graffeg fel elfennau wrth eu hymgorffori mewn delwedd mewn pecyn paentio, <i>ee mae modd symud rhan o lun ond nid oes modd symud cylch</i>. Trafodwch sut y gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth gynhyrchu delweddau, mapiau, siartiau a diagramau ac wrth ddylunio.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ddeall cyfyngiadau pecynnau paentio ar gyfer modelu</li></ul>	
<b>Tasg fer wedi'i ffocysu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>techneg:</b> symud, cylchdroi ac ail-feintio elfennau graffeg</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>◆ Defnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i ystod amrediad o siapiau geometreg sy'n debyg i'r rhai yn 'Y Falwen' gan Matisse.</li><li>◆ Dangoswch i'r dosbarth sut y gellir dewis ac ad-drefnu'r siapiau hyn, sut y gellir newid lliwiau, sut y gellir ail-feintio siapiau a sut y gellir copio a haenu siapiau.</li><li>◆ Rhannwch y plant yn barau a gofynnwch iddynt gymhwyso'r technegau hyn i greu delweddau gwahanol, argraffu'r gwaith a chymharu'r canlyniadau.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• defnyddio'r pecyn graffeg gwrthrychau i drafod siapiau</li></ul>	

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



<b>Amcanion Dysgu</b> Dylai disgyblion ddysgu...	<b>Gweithgareddau Posib</b>	<b>Canlyniadau Dysgu</b> <i>Gall disgyblion...</i>	<b>Pwyntiau i'w Nodi</b>
<b>Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)</b>			
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>techneg:</b> defnyddio offer geometreg i greu gwrthrychau y mae modd eu trafod gan ddefnyddio pecyn graffeg gwrthrychau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>◆ Dangoswch i'r dosbarth sut i greu gwrthrychau amrywiol gan ddefnyddio llinellau syth, llinellau crwm, siapiau geometrig a siapiau crwm. Gofynnwch i'r plant greu set o elfennau graffeg y mae modd eu defnyddio i gynhyrchu cynllun o'r dosbarth.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• creu gwrthrychau gan ddefnyddio pecyn graffeg a seilir ar wrthrychau</li></ul>	Gellid annog plant mwy galluog i weithio raddfa.
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd defnyddio model graffeg i archwilio dewisiadau eraill a nodi patrymau a chysylltiadau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>◆ Gofynnwch i'r plant ddarganfod faint o fyrddau fyddai'n ffitio i mewn i'r dosbarth gan ddefnyddio cynlluniau gwahanol a chadeiriau a byrddau o feintiau gwahanol.</li><li>◆ Gofynnwch i'r plant ystyried dewisiadau eraill, <i>ee beth fyddai'n digwydd petai'r byrddau ddwywaith mor hir?</i> a nodi unrhyw batrymau.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ddefnyddio model graffeg i nodi patrymau a chysylltiadau</li></ul>	Gellid annog plant mwy galluog i weithio i'r raddfa, nodi cysylltiadau meintiol <i>ee mae pob bwrdd o'r un gwerth â thair cadair</i> ac i optimeiddio'r ddefnyddio'r lle yn y ffordd orau.

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w Nodi
<b>Tasg Aseu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>defnyddio pecyn graffeg gwrthrychau i gynhyrchu ac archwilio model graffigol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am ffyrdd o wella safle'r ysgol. Gofynnwch iddynt gynhyrchu mapiau sy'n dangos y safle fel y mae ynghyd â'u cynigion. Dywedwch wrthynt bod angen iddynt ddangos na fydd eu cynigion yn amharu ar ofynion <i>ee mynediad a pharcio</i>.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>defnyddio model graffigol i hysbysu fwydo penderfyniadau am wella safle'r ysgol</li></ul>	Anogwch y plant i wneud brasluniau cychwynnol. Gellir gwneud hyn fel gwaith cartref.

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*